

QUALITY WELSH FOOD CERTIFICATION LTD

Cynllun Gwarant Fferm Cymreig

Asesydd Cynllun Gwarant Fferm (FAWL)

Cyflwyniad:

Mae QWFC Ltd, corff a ardystiwyd gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS), yn bwriadu penodi asesydd fferm i ymgymryd ag asesiadau fferm ar ei ran.

Mae QWFC yn rhan o'r sector cydweithredol Cymreig ac fe'u berchnogir gan y WAOS, corff canolog y mudiad cyd weithredol yng Nghymru a Chynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymreig Cyf (WLBP), menter gydweithredol sy'n cynnwys 7,500 o ffermwyr.

Mae WLBP yn berchen ar y Cynllun Gwarant Fferm Cymreig (FAWL) ac asesir pob aelod yn erbyn Safon Eidion ac Oen FAWL bob 18 mis yn gylchynol. Contractir QWFC gan WLBP i ymgymryd â'r asesiadau hynny i safon UE ISO17065 yng nghyd-destun systemau ardystio cynnyrch.

Gofynnir i aseswyr ymweld â ffermydd aelodau er mwyn gwerthuso'u gwaith o ran cydymffurfio â safon FAWL ar gyfer mentrau cig eidion ac oen. Gofynnir i aseswyr gadarnhau bod y fferm yn cydymffurfio â'r safonau hynny, i lenwi ffurflen asesu fanwl a chyflwyno adroddiad ar unrhyw feysydd ble nad oes cydymffurfio'n digwydd.

Cymhwyster, Profiad a Nodweddion:

Gofynnir i asesydd FAWL gael o leiaf bum mlynedd o brofiad o reoli uned cig eidion neu ddefaid neu dair blynedd os yw'n meddu ar gymhwyster addas megis gradd / diploma genedlaethol uwch / tystysgrif genedlaethol uwch neu gymhwyster cyfatebol ym myd amaeth ac yn benodol mewn cynhyrchu da byw.

Mae angen i asesydd FAWL fod yn wybodus a thrylwyr, ond ni ddylent fod yn wrthdrawiadol nac yn ymosodol. Rhaid i asesydd ddeall mai eisiau cefnogi ffermwyr wrth iddynt gwrdd â safonau FAWL yr ydym. O dan ganllawiau UKAS, ni all yr un asesydd roi cyngor, ond mae ganddo hawl i esbonio a gwneud i ffermwyr ddeall yn llawn gofynion safonau FAWL. Dylai'r broses asesu fod yn brofiad cadarnhaol ac os nad yw ffermwr yn cydymffurfio ag unrhyw ran o'r safon, dylid dwyn hyn i'w sylw mewn modd tringar; serch hynny, rhaid i asesydd fod yn gadarn weithiau. Byddai o fantais i unrhyw ddarpar ymgeisydd feddu ar ddiddordeb mewn neu brofiad o'r sectorau llaeth ac organig am y gallai fod cyfle i ddatblygu sgiliau'r unigolyn a'i ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ogystal â bod yn asesydd FAWL.

Adrodd yn ôl a Hyfforddiant:

Rhaid i aseswyr feddu ar allu profedig i adrodd yn ôl ac ysgrifennu'n glir a chryno, a byddai meddu ar brofiad o weithio fel asesydd yn y gorffennol yn fantais glir. Bydd gofyn i'r asesydd ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol mewn gweithgareddau asesu ac mewn gweithio oddi mewn i system safonau: cynigir hyfforddiant gan QWFC er mwyn sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal a'u hadrodd mewn dull trylwyr a chyson.

Rhaid i aseswyr fod yn gallu cyfathrebu'n dda a sicrhau bod ffermwyr yn deall yn glir yr hyn a ofynnir ganddynt. Byddai meddu ar y gallu i weithio gyda chyfrifiaduron yn fanteisiol.

Bydd hyfforddiant ar gyfer y swydd yn golygu adolygu safonau'r cynllun ac ymweliadau â ffermydd dan oruchwyliaeth cyn y caniateir i'r ymgeisydd ymgymryd ag asesiad llawn, a gysgodir gan un o'n prif archwilwyr.

Bydd angen i aseswyr gysylltu ag ymgeiswyr dros y ffôn i gynnal gwiriad cyn-asesu er mwyn i ymgeiswyr ac aelodau fod yn llwyr ymwybodol o a deall yn llawn gofynion cynllun FAWL cyn i'r fferm gael ymweliad; gall hyn arbed amser i'r asesydd ac i'r ffermwr. Bydd angen trefnu asesiadau o fewn amserlen ragosodedig a'u cynnal yn unol â gofynion cynllun FAWL. Bydd angen i'r asesydd sicrhau bod pob maes yn safonau'r cynllun yn cael eu hasesu a bydd gofyn iddo gyflwyno adroddiadau i QWFC sy'n gofnod ffeithiol o'r asesiad. Bydd gofyn i gofnodi'n glir unrhyw ddiffygion cydymffurfio a godwyd, adrodd y rhain yn ôl i'r ffermwr ac i QWFC a, ble bo hynny'n addas, ystyried dulliau gweithredu ac amserlen i gywiro unrhyw ddiffygion. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen cynnal gwiriadau dirybudd ac ail-ymweliadau.

Telerau'r penodiad:

Gall aseswyr ymgymryd â nifer o asesiadau a gytunwyd bob wythnos a gellir darparu wyth i ddeg o asesiadau ar gyfartaledd drwy gytundeb. Ystyrir bod yr asesydd yn hunangyflogedig a thelir ef ar gyfradd safonol yn ôl pob fferm y bydd yn ymweld â hi.

Bydd disgwyl i'r asesydd weithredu yn ôl amserlen a gytunwyd ar gyfer dychwelyd adroddiadau asesu ac i fynychu ailhyfforddi blynyddol rheolaidd. Gofynnir i bob asesydd gael ei fonitro a chynhelir adolygiadau perfformiad aseswyr yn rheolaidd. Ymhellach, gofynnir i aseswyr dderbyn archwiliad tyst gan brif archwilwyr QWFC ac, o bryd i'w gilydd, gan wasanaeth archwilio UKAS er mwyn sicrhau cydymffurfio ag ISO17065.

I wneud cais am y swydd, dylai ymgeiswyr lenwi'r ffurflen atodedig a'i dychwelyd at QWFC Ltd, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2HE erbyn dydd Iau 5 Tachwydd 2015.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch ag Iestyn Jones ar (01970) 636688 neu e-bostiwch info@wlbpc.co.uk